

Athrawon!... A oes gennych ddisgyblion  
disglair sy'n serennu mewn  
**celf a chreffft?**

## Dosbarthiadau Meistri Celf i Blant Mwy Abl a Thalentog

Mae **Criw Celf** yn cynnig rhaglen o hyfforddiant arbenigol i blant sy'n fwy abl a thalentog ym maes celf weledol. Drwy ein rhaglen o ddsbarthiadau meistri arbennig, gydag artistiaid proffesiynol, mae aelodau **Criw Celf** yn cael ...

- Mynediad i addysg celf ychwanegol, dwys o ansawdd uchel
- Meithrin a datblygu sgiliau a dealltwriaeth o gelf weledol a chreffft
- Dysgu am yrfaedd ym maes celf
- Cydweithio ag artistiaid i ddatblygu eu potential a'u gallu
- Arddangos eu gwaith celf mewn oriel broffesiynol

**DYDDIAD CAU!**  
**8 Rhagfyr**

### Enwebu eich disgyblion...



Fel athro neu athrawes gallwch enwebu **hyd at 10** o ddisgyblion **Blwyddyn 5 i 9** i ymaelodi â'r rhaglen hyfforddiant cyffroes hwn. Gyrrwch enghraifft o'u gwaith celf atom er ystyriaeth erbyn **8 Rhagfyr 2017**, darlennwch am yr hyn sydd angen ei gyflwyno ar y dudalen nesaf...

*Cynllun wedi ei gefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru.*



CEFNOGI CREADIGRWYDD  
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU  
THE ARTS COUNCIL OF WALES  
SUPPORTING CREATIVITY



CYNGOR  
**Sir y Fflint**  
**Flintshire**  
COUNTY COUNCIL

# Cyflwyno gwaith celf...

Postiwch y canlynol i'r cyfeiriad isod...

- Darn o waith celf wedi ei greu gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng, ar unrhyw ffurf (2D, 3D neu 4D) o dan y teitl 'Fy Hoff Waith Celf Personol'
- Paragraff byr yn egluro pam yr hoffent ymaelodi â Chriw Celf (dim mwy na 50 gair).

*Os yr hoffai'r disgybl(ion) gyflwyno gwaith 4D megis ffilm neu waith animeiddio digidol gellid ei ebostio at [gwenno.e.jones@flintshire.gov.uk](mailto:gwenno.e.jones@flintshire.gov.uk) yn hytrach na phostio.*

Gwnewch yn siŵr bod enw ac oed y plentyn, enw'r ysgol a chyfeiriad cartref a rhif ffôn cartref y plentyn ar gefn y gwaith celf. Defnyddiwch y daflen label ar dudalen 3 o'r bamffled hon a'i atodi i'r gwaith. Cofiwch mai gallu naturiol y plentyn yr ydym angen ei weld wrth asesu'r gwaith celf. Mae'n hanfodol bwysig nad yw'r plentyn yn derbyn cymorth oedolyn nag artist i greu eu gwaith.

Bydd panel o artistiaid yn dethol y plant llwyddiannus ac fe fyddwn yn eu gwahodd i fynychu rhaglen o ddsbarthiadau meistri fydd yn cychwyn ym mis Ionawr 2018; cychwyn da i'r flwyddyn newydd!

*\*Mae modd i blant a'u rhieni hunan-enwebu yn ogystal ond bydd gofyn i'w hathro/awes lofnodi bonyn pwrpasol i warantu fod y plentyn wedi eu hadnabod fel disgybl MATH ym maes celf. Bydd manylion proses hunan-enwebu yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn fuan!*

## Cyfeiriad...

Criw Celf Sir y Fflint, Adran Celfyddydau,  
Diwylliant a Digwyddiadau,  
Cyngor Sir y Fflint, Theatr Clwyd,  
Yr Wyddgrug CH7 1AY  
Gwenno Eleri Jones 01352 702471

Bwrsari ar gael i gefnogi plant sy'n derbyn cinio am ddim yn yr ysgol, cysylltwch am y manylion.

**Ffi ymaelodi i rai llwyddiannus £38**



[www.criwcelf.co.uk](http://www.criwcelf.co.uk)

# Label!

Atodwch y daflen label hon i'r gwaith celf yr ydych yn gyflwyno.

Please attach this label sheet to the artwork you are submitting.

## Fy Hoff Waith Celf / My Favourite Artwork

Enw / Name: \_\_\_\_\_ Bl. Ysgol / School Yr.: \_\_\_\_\_

Ysgol / School: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad Cartref / Home Address: \_\_\_\_\_

Rhif Ffôn Cartref / Home Phone No.: \_\_\_\_\_

A yw'r disgybl wedi ei adnabod fel disgybl MATH ym maes celf? / Has the pupil been identified as a MAT art pupil?: Do / Yes:  Naddo / No:

Enw a llofnod yr athro / Teacher's name & signature: \_\_\_\_\_

## Paragraff Byr / Short Paragraph...

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---